



Sut i gyfrifo'ch ôl troed carbon

Amser yr awgrymir ar gyfer y gweithgaredd

30 - 45 munud

Lleoliad Dan do neu yn yr awyr agored

Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn cynnig awgrymiadau i ddysgwyr gyfrifo eu hól troed carbon personol. Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, y tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a'r pridd i wella llesiant Cymru a rhoi dyfodol gwell i bawb.

Cwricwlwm i Gymru

Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Mathemateg a Rhifedd	Y Dyniaethau
<ul style="list-style-type: none">Yr hyn sy'n bwysig - Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.	<ul style="list-style-type: none">Yr hyn sy'n bwysig - Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.	<ul style="list-style-type: none">Yr hyn sy'n bwysig - Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
<ul style="list-style-type: none">Yr hyn sy'n bwysig - Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.		

Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- Cyfrifo'u hól troed carbon dros gyfnod o ddiwrnod, gan luosi i gyfrifo blwyddyn.
- Ystyried sut i wneud newidiadau i leihau eu hól troed carbon.

Offer ac adnoddau a awgrymir

- [Nodyn gwybodaeth - Carbon](#)
- [Cardiau adnoddau - Sut i gyfrifo'ch ôl troed carbon](#)
- [Taflen waith - Sut i gyfrifo'ch ôl troed carbon](#)
- Clipfyrddau
- Pensiliau
- Cyfrifianellau

Awgrymiadau i gwblhau'r gweithgaredd hwn

- Gallech ddechrau'r gweithgaredd hwn drwy drafod â'ch dysgwyr beth yw ôl troed carbon a sut mae ein gweithgareddau bob dydd yn allyrru carbon - mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein [Nodyn gwybodaeth - Carbon](#).



- Gan ddefnyddio'r taflenni gwaith a awgrymir, clipfyddau a phensiliau, gall y dysgwyr weithio'n unigol, mewn paru neu mewn grwpiau bach i gyfrifo eu hallyriadau carbon blynyddol ac felly eu hól troed carbon. Gall dysgwyr lenwi'r gwerthoedd coll yng ngholofn gyntaf eu taflen waith trwy ddod o hyd i'r cardiau perthnasol yn y [Cardiau adnoddau - Sut i gyfrifo'ch ôl troed carbon](#). I roi cyfle i'ch dysgwyr ystyried y gwahanol gardiau adnoddau tra byddant yn gorfforol actif, ystyriwch eu gosod ar draws ardal awyr agored (os oes angen, rhwch gerrig ar eu pennau i'w pwyso i lawr, eu clymu wrth goed, neu eu pegio ar hyd lein ddillad).
- Ar ôl cyfrifo cyfanswm eu hallyriadau carbon blynyddol, gellid gofyn i'r dysgwyr gymharu eu canlyniadau trwy drefnu eu hunain mewn llinell o'r ôl troed carbon uchaf i'r isaf. Gallent drafod sut gallai pawb, yn enwedig y rhai ag olion traed carbon uwch, leihau eu heffaith trwy wneud newidiadau yn eu bywydau bob dydd.

Awgrymiadau ar gyfer cwestiynau allweddol

- Beth yw ôl troed carbon?
- Pa gamau neu weithgareddau allai gyfrannu at ddysgwyr yn cynyddu eu hól troed carbon?
- Sut allwn ni leihau ein hól troed carbon?

Awgrymiadau ar gyfer addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

- Os ydych chi'n defnyddio ein taflen waith, fe allech chi weithio drwyddi gam wrth gam gan ddefnyddio eich hun fel enghraifft.
- Gallai'r dysgwyr lenwi'r daflen waith gyda'i gilydd, gyda'r arweinydd yn defnyddio cyfartaledd ar gyfer pob un o'r gweithgareddau yn dilyn trafodaethau gyda'r grŵp.
- Fe allech rannu'r daflen waith yn gamau a gwirio'r canlyniadau a dealltwriaeth dysgwyr cyn symud ymlaen i'r cam nesaf.
- Gallai'r dysgwyr weithio drwy'r daflen waith yn annibynnol.
- Gallai'r dysgwyr lenwi'r daflen waith heb gyfrifiannell.

Awgrymiadau ar gyfer gweithgaredd dilynol/estyniad

- Gallai'r dysgwyr gyfrifo ôl troed carbon eu haelwyd, yr ysgol gyfan, neu gyfuniad arall.
- Gallai'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd i greu cynllun gweithredu i leihau eu hól troed carbon unigol a/ neu ôl troed carbon eu haelwyd neu'r ysgol gyfan.

Adnoddau eraill a awgrymir

- [Cynllun gweithgaredd - Sut y gallwn ni fyw'n gynaliadwy?](#)
- [Cynllun gweithgaredd - Cyfrifo faint o garbon sy'n cael ei storio mewn coeden](#)
- [Cynllun gweithgaredd - Cyfrifo faint o garbon sy'n cael ei storio mewn mawn](#)

Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.

Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?

Ewch i: <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

0300 065 3000